CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
22 Tachwedd 2016, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng C McGregor, D Morgan, D Pritchard, W Williams, A Wyn, W Vaughan, D ap Rhobert, G D Williams, A Williams.	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D Roberts, Cyng R G Parry (Cyngor Sir), Cyng D Rees (Cyngor Sir), Cyng N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng D Pritchard
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 25 Hydref 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn, Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng D Morgan yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gofeb Talwrn** - Mae Cyng A Wyn wedi cael pris gan cwmni ym Mlaenau Ffestiniog i gwneud y plac. Cytunwyd i symud ymlaen a canslio'r oder gyda Inigo Jones
4.2	**Coed - Maes y Coed** - Mae'r Clerc yn disgwyl i Roundwood Tree Technology symud ymlaen gyda'r gwaith
4.3	**Damwain sgwar Talwrn** - mewn llaw
4.4	**Baw ci lôn yr Ysgol -** Mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
4.5	**Lôn Mynydd Bodafon - Penrhoslligwy** - mae'r Cyngor Sir yn dweud bod marciau ochor y ffordd angen ei hadnewyddu ac am gwneud y gwaith. Nid oes angen i ail-darmacio gan fod wyneb y ffordd yn foddhaol.
4.6	**Arwyddion baw ci** rhwng Lon Hen Hafod a Lon Penybryn yn Talwrn - mewn llaw
4.7	**Penderfyniad Cais cynllunio 23C332** - Does yna ddim penderfyniad ar y cais eto
4.8	**Cwyn polion BT** - mae BT wedi ail osod y polion
4.9	**Halfway, Talwrn (ildio)** - mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
4.10	**Lon sgwar Talwrn - Hen Bost, Talwrn** - mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
4.11	**Ceblau broadband** - mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan BT
4.12	**Ymgynghoriad Ysgol Talwrn** - Mae'r Cyngor Cymuned o blaid cadw Ysgol Gynradd Talwrn ar agor ac yn cefnogi cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Cynulliad Cymru ar gadw ysgolion bychain ar agor. Gan fod yr ysgol yn 98% llawn, ac ysgolion gynradd yn Llangefni yn llawn, ni welwn unrhyw reswm i gau'r ysgol.
	Llofnod…….Cadeirydd 24.01.17

	Rydym hefyd yn teimlo bod y costau yn amheus. Er enghraifft, mae côst o £ 250,000 wedi cael ei roi ar gyfer ystafell ddosbarth symudol. Mewn rhai ysgolion gallai'r gôst fod yn llai ac mewn eraill mwy. Os yw data hwn yn anghywir, faint o ddata arall sydd yn anghywir? Bydd y Clerc yn trosglwyddo sylwadau y Cyngor
4.13	**Lamp stryd wrth ymyl 3 Tai Lon Coch** - mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	23C280G - cais llawn i newid defnydd adeiladau allanol i 10 annedd, gosod paced trin carthffosiaeth ynghyd a gwelliannau i'r mynedfa presennol yn Plas Llanfihangel, Capel Coch - cais wedi ei dynnu'n ôl (gwybodaeth yn unig)
5.2	23C278B/VAR Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (01,02) (amser), (04) (deunydd y to), (15,16,17) (tirwedd a coed), (21) (maint a lleoliad y ty) o caniatad cynllunio rhif 23C278A (cais amlinellol i godi annedd) yn Tyn Lon, Llangwyllog. Sylwadau y Cyngor: gosod llechi i gyd-fynd a eiddo eraill yn yr ardal
5.3	23C339 Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i 2 annedd yn Tyn Llidiart, Talwrn (cynlluniau diwygiedig). Sylwadau y Cyngor: Mae'r mynedfa ar gongl drwg - a yw y mynedfa yn saff?
5.4	23C309C Cais llawn ar gyfer codi annedd a modurdy ynghyd a creu mynedfa i gerbydau ar dir yn Iscoed, Talwrn. Sylwadau y Cyngor: Bydd yr annedd allan o gymeriad i'r ardal. Hefyd, mae yna problemau carthffosaieth yn yr ardal.
	Priffyrdd
5.5	Fforwm Mynediad Lleol ynys Môn. Mae'r fforwm yn y broses o ailffurfio'r fforwm. Mae enw Cyng D ap Rhobert wedi cael ei rhoi ymlaen
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Dim
8	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu y canlynol:
8.1	Rhodd Eisteddfod Genedlaethol 2017 - £1000
8.2	S Jones £412 (mainc Mynydd bodafon)
8.3	G Hughes £300 (torri gwair)
9	**MATERION ERAILL**
	Dim
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
10.1	Car wedi cael ei dympio ar y tir comin gyferbyn a'r hen swyddfa bost
10.2	Lamp - Maes y Coed
	Llofnod…….Cadeirydd 24.01.17